# Pleidleisiau a Thrafodion **Dydd Mawrth, 4 Ebrill 2006**

Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

## Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Gofynnwyd y 15 cwestiwn.**

........................................

**3.07pm**

**Cwestiwn Brys:** Alun Ffred Jones (Caernaffon) A wnaiff y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ddatganiad ar y penderfyniad i gau lladd-dy Caernarfon.

........................................

**3.15pm**

## Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

**Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu'r datganiad busnes.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:**

**O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 54**

**Cytunwyd ar y datganiad busnes**

.........................................

**Eitem 3 - Datganiad gan y Trefnydd: Adolygiad o Ddiogelu Plant sy’n Agored i Niwed - *Gohiriwyd***

.........................................

**3.26pm**
**Datganiad gan y Trefnydd: Canllawiau ar Leoliadau Hygyrch**

.........................................

**3.55pm**
**Pwynt o Drefn**
Cododd Peter Black Bwynt o Drefn am fwriad y Gweinidog dros Addysg i wneud datganiad ysgrifenedig ynghylch ei chynigion ar gyfer dosbarthu’r arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r gyllideb addysg.

Dywedodd y Llywydd mai’r disgwyliad yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru ar Rheolau Sefydlog oedd y dylai’r Cynulliad benderfynu sut y caiff arian ei ddyrannu mewn amgylchiadau o’r fath.

.........................................

**3.57pm**
***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth***
**Eitem 4 - Cynnig i Gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM2977 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2006; a

2) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio)

(Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a. y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006;
b. yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2006; ac.
c. y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig**

.........................................

## 3.59pm
## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006

**NDM2978 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd:
Yn credu y byddai darparu ar gyfer gofal personol rhad ac am ddim i'r henoed yn sicrhau eu hurddas ac yn arbed y cywilydd o brofion modd.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 14; Ymatal 10; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd gwelliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau'r adnoddau i gynyddu'r terfyn uchaf ar gyfalaf i £60,000.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2 i egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 4; Ymatal 20; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 2 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2979 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion personol) (Diwygio) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Yn rheoliad 5 bod y ffigur "£50,000" yn cael ei roi yn lle'r ffigur "£21,500."

**Datganiad a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**

**Diben**

Diben y gwelliant hwn yw cynyddu’r terfyn cyfalaf, na chaiff awdurdodau lleol gyfrannu tuag at gostau gofal trigolion sydd y tu hwnt iddo, o £21,000 i £50,000.

**Cost**

Byddai rhoi’r gwelliant hwn ar waith yn costio £14.5m i awdurdodau lleol. Yn wyneb yr addewid a wnaed i gyllido cyfrifoldebau cenedlaethol a drosglwyddwyd i awdurdodau lleol, bydd y gost o roi’r gwelliant hwn ar waith, yn y pen draw, yn cael ei hysgwyddo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1 i’r Rheoliadau**
O blaid 12; Ymatal 12; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd gwelliant 1 i’r Rheoliadau**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Yn rheoliad 6(b) bod y ffigur “£50,000” yn cael ei roi yn lle’r ffigur “£21,500.”

**Datganiad a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**

**Diben**

Diben y gwelliant hwn yw cynyddu’r terfyn cyfalaf, na chaiff awdurdodau lleol gyfrannu tuag at gostau gofal trigolion sydd y tu hwnt iddo, o £21,000 i £50,000.

**Cost**

Byddai rhoi’r gwelliant hwn ar waith yn costio £14.5m i awdurdodau lleol. Yn wyneb yr addewid a wnaed i gyllido cyfrifoldebau cenedlaethol a drosglwyddwyd i awdurdodau lleol, bydd y gost o roi’r gwelliant hwn ar waith, yn y pen draw, yn cael ei hysgwyddo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Gan nad oedd gwelliant 1 wedi ei gymeradwyo, gwrthodwyd gwelliant 2**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 4; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

......................................

## 4.24pm
## Eitem 6 – Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006

**NDM2980 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

**NDM2981 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Mawrth 2006; ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

........................................

## 4.37pm
## Eitem 7 – Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2006

**NDM2982 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2983 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

........................................

## 4.39pm
## Eitem 8 – Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006

**NDM2984 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mawrth 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd:

Yn galw ar y Gweinidog i ddarparu canllawiau ar gyfer gwahanu anifeiliaid a brofwyd am TB mewn gwartheg oddi wrth anifeiliaid nas profwyd ar ffermydd ac mewn eiddo oddi ar dir y fferm, a sicrhau bod digon o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd anifeiliaid ar gael i gynnal profion cyn symud.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd gwelliant 1 i egwyddor y Gorchymyn**

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r baich ariannol sylweddol y mae Profion Cyn Symud yn ei osod ar y diwydiant ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu gwaith Arolygwyr Milfeddygol Lleol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd gwelliant 2 i egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 30; Ymatal 6; Yn erbyn 14; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

**NDM2985 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 28 Mawrth 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mawrth 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Elin Jones (Ceredigion); Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Yn Erthygl 9, cynnwys ar y diwedd:

(5) Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn talu unrhyw ffi a godir am brofion a ddaw dan reolaeth paragraff (1).

**Datganiad a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**

**Diben**

Mae'r gwelliant hwn yn trosglwyddo'r ffioedd am brofion TB mewn gwartheg fel rhan o'r cynllun Profion Cyn Symud o geidwaid y gwartheg i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Cost**

Bydd hyn yn golygu costau o £761,000 i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1 i'r Gorchymyn**
O blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd gwelliant 1 i'r Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 29; Ymatal 7; Yn erbyn 13; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**......................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.11pm**

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 5 Ebrill 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

March 31, 2006

Document(s)

- **LD5549 - Government of Wales Act 1998: Section 86 Statement**